# Trwyddedau Cwympo Coed

Canllawiau i Ymgeiswyr Trwydded Cwympo Coed:

- Amodau amgylcheddol ar drwyddedau cwympo coed
- Diwygio, atal a dirymu trwyddedau cwympo coed
- Iawndal yn dilyn apêl lwyddiannus i benderfyniad CNC yn ymwneud â thrwyddedau cwympo coed

# Tabl cynnwys

Trwyddedau Cwympo Coed ........ 1
1 Cyflwyniad ........ 3
2 Amgylchiadau amgylcheddol sy'n berthnasol i'ch trwydded (os caiff ei chaniatáu) ........ 3
2.1 Yr amodau amgylcheddol ........ 3
2.2 Cyflwyno amodau i'ch trwydded ........ 4
3 Diwygio ........ 5
3.1 Diwygio drwy gytundeb ........ 5
3.2 Diwygio heb gytundeb ........ 8
4 Atal trwydded cwympo coed ........ 9
4.1 Atal eich trwydded ........ 10
4.2 Cyflwyno hysbysiad atal dros dro ........ 11
5 Dirymu trwydded cwympo coed ........ 12
5.1 Dirymu eich trwydded ........ 13
5.2 Cyflwyno hysbysiad i ddirymu eich trwydded cwympo coed ........ 13
6 Apeliadau ac Iawndal ........ 14
**Atodiad 1 – Amodau Sylfaenol** ........ 17
........ 17
Atodiad 2 – Amodau Amgylcheddol Haen Dau ........ 21

# 1 Cyflwyniad

Mae Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023 yn cynnwys darpariaeth coedwigaeth newydd sy'n berthnasol i bob cais am drwydded cwympo coed mae CNC yn ei dderbyn ar 1 Ebrill 2024 neu wedi hynny. Mae'r ddarpariaeth yn caniatáu ar gyfer diwygiad i'r Ddeddf Coedwigaeth 1967 bresennol er mwyn ychwanegu amodau amgylcheddol at drwyddedau cwympo coed, a chaniatáu i drwyddedau gael eu diwygio, eu hatal a'u dirymu ar ôl eu rhoi.

# 2 Amgylchiadau amgylcheddol sy'n berthnasol i'ch trwydded (os caiff ei chaniatáu)

Gellir ychwanegu'r Amodau hyn at bob cais am drwydded cwympo a dderbyniwyd ar neu ar ôl 1 Ebrill 2024. Mae'r amodau hyn yn ychwanegol at yr amodau presennol sy'n ymwneud ag ailstocio a chynnal a chadw.

Bydd yr Amodau Amgylcheddol yn:

- ffurfio rhan o'r drwydded cwympo coed, pan gaiff ei chymeradwyo, a gellir eu gorfodi gan CNC i amddiffyn bywyd gwyllt a'r amgylchedd, gan gydnabod gwerth ein coetiroedd fel adnodd naturiol gwerthfawr.

- ymwneud â'r angen i osgoi neu liniaru effeithiau ar yr amgylchedd, bioamrywiaeth neu rywogaethau, sensitifrwydd wrth wneud gweithgareddau sy'n gysylltiedig â thrwydded cwympo coed.

- helpu i leihau'r risg o roi trwydded cwympo coed a fyddai'n cael effaith negyddol ar yr amgylchedd neu'n tanseilio deddfwriaeth amgylcheddol arall.

- sicrhau bod y safonau sy'n ofynnol i ddiogelu'r amgylchedd yn unol â rheoliadau yn fwy amlwg i ddeiliad trwydded cwympo coed. Ni ddylai ychwanegu amodau o'r fath roi unrhyw faich ychwanegol lle mae deiliaid trwydded eisoes yn cydymffurfio â deddfwriaeth berthnasol ac yn cadw at Safon Coedwigaeth y DU (UKFS).

- rhoi sicrwydd bod gweithgareddau sy'n digwydd, unwaith y caiff trwydded ei rhoi, yn cael eu cynnal mewn ffordd sy'n ategu deddfwriaeth amgylcheddol arall.

Wrth gymhwyso'r amodau hyn, byddwn yn defnyddio ein dyletswydd dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 i reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy (SMNR). Byddwn yn gwneud hyn drwy sicrhau y gall coedwigoedd a choetiroedd barhau i ddarparu amrywiaeth o fuddion gan gynnwys cynhyrchu pren.

## 2.1 Yr amodau amgylcheddol

Rydym wedi cymryd agwedd haenog tuag at ddatblygu amodau amgylcheddol. Mae'r dull haenog hwn yn sicrhau bod yr amddiffyniadau a'r gofynion sydd eu hangen yn gyson ac yn gymesur â sensitifrwydd gweithrediad a'u bod yn glir i'w deall a'u gorfodi. Yr haenau yw:

### 2.1.1 Amodau sylfaenol

Dyma'r amodau safonol a gaiff eu hychwanegu at bob trwydded cwympo coed yn ystod y broses ymgeisio. Mae'r amodau hyn yn cydymffurfio â Safon Coedwigaeth y DU a deddfwriaeth amgylcheddol berthnasol arall.

### 2.1.2 Amodau haen dau

Efallai y byddwn yn ychwanegu amodau haen dau at eich trwydded cwympo coed os yw'ch gwaith cwympo coed arfaethedig yn cynnwys ardaloedd sensitif perthnasol e.e. gwiwer goch, coetiroedd hynafol.

Byddwn yn ychwanegu'r amodau ychwanegol hyn at eich trwydded yn ogystal â'r amodau sylfaenol. Bydd yr amodau hyn yn berthnasol gydol cyfnod y drwydded. Lle mae angen i ni ystyried ychwanegu amod haen dau, byddwn yn ymgynghori â chi.

### 2.1.3 Amodau pwrpasol

Efallai y bydd angen i ni ystyried ychwanegu amod pwrpasol lle mae sawl elfen sensitif neu rai mwy cymhleth ar y safle a lle gall y gwaith cwympo coed effeithio ar yr elfennau sensitif hyn.

Bydd yr amodau hyn yn cael eu hystyried fesul safle. Hefyd, maen nhw'n fwy tebygol, er nad yn unig, o fod yn gysylltiedig â'r canlynol:

- Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA)
- Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA)
- Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (AGA)
- Safleoedd RAMSAR

Gallwch ddefnyddio'r chwiliadur hwn i wirio am safleoedd gwarchodedig.

## 2.2 Cyflwyno amodau i'ch trwydded

Yn ystod y broses ymgeisio bydd angen i chi adolygu'r amodau llinell sylfaen a chadarnhau eich bod wedi darllen yr amodau hyn a chytuno arnynt. Os hoffech drafod yr amodau sylfaenol gyda ni cyn cyflwyno cais, e-bostiwch fellinglicence@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

Gallwch adolygu'r amodau sylfaenol yn atodiad 1 a'r Amodau Haen Dau yn atodiad 2.

Yn ystod y broses ymgeisio, bydd angen i chi nodi elfennau o sensitifrwydd amgylcheddol hysbys ar eich safle. Byddwn yn rhoi arweiniad i chi i'ch helpu i ddeall yr hyn sydd ei angen a sut i ddod o hyd i'r wybodaeth hon yn y broses ymgeisio.

Byddwn yn rhoi ystyriaeth briodol i'r mesurau lliniaru rydych yn bwriadu eu dilyn i ddileu neu gyfyngu ar yr effaith ar yr elfennau sensitif hyn. Gofynnir i chi ddarparu'r wybodaeth hon yn eich cais am drwydded cwympo.

Pan fyddwn yn derbyn eich cais, byddwn yn ei wirio yn erbyn elfennau sensitif amgylcheddol hysbys. Efallai y bydd angen i ni ymweld â'r safle i drafod sut y gellir rheoli'r elfennau sensitif amgylcheddol hynny fel rhan o safle gweithredol.

Os oes angen amod haen dau neu amod pwrpasol, byddwn yn ymgynghori â chi.

Mae gwybodaeth a chanllawiau ar sut y gallwch chi ystyried a chydymffurfio â'r amodau ar eich trwydded cwympo coed ar ein tudalen gwneud cais.

Os nad ydych chi’n credu y gallwch gydymffurfio ag amod ar eich trwydded cwympo coed ar ôl cymeradwyo eich trwydded, a bod rheswm arwyddocaol am hyn, gallwch ofyn i ni ddiwygio neu amrywio'r amod. Gallwch ofyn am ddiwygiad i'r drwydded cwympo coed cyn i chi ddechrau gweithrediadau neu yn ystod y gweithrediadau.

# 3 Diwygio

Mae Deddf Coedwigaeth 1967 wedi'i diwygio i ganiatáu ar gyfer

- ychwanegu amodau amgylcheddol at drwyddedau cwympo coed er mwyn sicrhau cyfanrwydd safleoedd gwarchodedig, rhywogaethau gwarchodedig neu elfennau sensitif eraill
- y gallu i ddiwygio, atal neu ddiddymu trwydded cwympo coed os bydd rhywbeth am y gweithgaredd trwyddedig hwnnw yn dod yn annerbyniol

Dim ond i drwydded cwympo coed a dderbyniwyd ar 1 Ebrill 2024 neu ar ôl hynny, mae hyn yn berthnasol.

Gellir diwygio trwyddedau cwympo coed:

- drwy gytundeb rhwng CNC a Deiliad y Drwydded,

- os nad yw hyn yn bosibl, mewn amgylchiadau eithriadol gall CNC ofyn am ddiwygio neu amrywio amodau amgylcheddol y drwydded heb gydsyniad deiliad y drwydded, gweler yr adran ar ddiwygio heb gytundeb.

## 3.1 Diwygio drwy gytundeb

Gellir gwneud diwygiad i drwydded cwympo drwy gytundeb yn yr amgylchiadau canlynol:

- diwygio gweinyddol (Atodlen A) a/neu

- diwygio technegol (Atodlen B)

Os hoffech wneud unrhyw newidiadau i'ch trwydded cwympo coed gymeradwy, bydd angen i chi wneud cais am ddiwygiad.

Os hoffech drafod diwygio amodau'r drwydded cwympo coed cyn cyflwyno eich cais am ddiwygiad, e-bostiwch fellinglicence@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk.

### 3.1.1 Gwneud cais am ddiwygiad gweinyddol i'ch trwydded (Atodlen A – diwygiad gweinyddol)

Bydd angen i chi wneud cais am ddiwygiad gweinyddol i'ch trwydded cwympo coed dan yr amgylchiadau canlynol:

a) pan mae deiliad y drwydded yn gwmni cofrestredig:

- unrhyw newid yn enw masnachu deiliaid y drwydded, enw cofrestredig neu gyfeiriad swyddfa gofrestredig: a
- unrhyw gamau a gymerwyd gyda'r bwriad i ddeiliaid y drwydded fynd i ddwylo'r gweinyddwyr, ymrwymo i drefniant gwirfoddol cwmni neu gael ei ddirwyn i ben

b) pan mae deiliad y drwydded yn gorff corfforaethol ac eithrio cwmni cofrestredig:

- unrhyw newid yn enw neu gyfeiriad deiliad y drwydded: a
- unrhyw gamau a gymerwyd gyda'r bwriad o ddiddymu deiliaid y drwydded

c) mewn unrhyw achos arall:

- marwolaeth unrhyw un o ddeiliaid y drwydded a enwir (lle mae deiliaid y drwydded yn cynnwys mwy nag un unigolyn a enwir);
- unrhyw newid yn enw(au) neu gyfeiriad(au) deiliaid y drwydded; a
- unrhyw gamau a gymerwyd gyda bwriad i ddeiliaid y drwydded, neu unrhyw un ohonynt, fynd i fethdaliad, ymrwymo i gyfansoddiad neu drefniant gyda chredydwyr, neu, os ydynt mewn partneriaeth, diddymu'r bartneriaeth.

Bydd angen i chi lenwi ffurflen ddiwygio

Efallai y bydd angen i chi ddarparu'r dogfennau canlynol:

- Tystiolaeth o newid perchnogaeth

Bydd angen i chi wneud cais i CNC o fewn yr amserlenni canlynol:

- ar gyfer safleoedd gweithredol o fewn 14 diwrnod i'r newid

- ar gyfer safleoedd anweithredol 28 diwrnod cyn dechrau'r gwaith

Byddwn yn ceisio cydnabod derbyn cais o fewn 3 diwrnod a chwblhau'r diwygiad, cyn belled bod yr holl wybodaeth ar gael, o fewn 10 diwrnod ar gyfer newidiadau Atodlen A.

Pan fydd trwydded cwympo coed wedi'i newid, byddwn yn cyhoeddi hysbysiad diwygio.

### 3.1.2 Gwneud cais i ddiwygio trwydded cwympo coed (Atodlen B - newid technegol)

Mewn amgylchiadau eithriadol, efallai y byddwn yn ystyried ceisiadau i ddiwygio trwydded cwympo coed a gymeradwywyd, gall hyn fod:

- i ddileu, ychwanegu neu ddiwygio amod amgylcheddol. Fel deiliad y Drwydded Cwympo Coed gallwch ofyn am gael ychwanegu neu amrywio amod amgylcheddol ar y drwydded. Er enghraifft, efallai y bydd hyn er mwyn ychwanegu amod amgylcheddol ar gyfer rhywogaeth warchodedig sydd bellach ar y safle neu i ofyn am ganiatâd i weithio ar safle coetir hynafol yn ystod misoedd y gwanwyn/haf os yw'r tywydd yn atal y gweithrediadau cychwynnol arfaethedig rhag digwydd yn ystod y gaeaf. Os nad yw'r amgylchiadau ar eich safle wedi newid, efallai na fyddwn yn caniatáu'r newid.
    - lle mae Gorchymyn Cadw Coed wedi'i osod ar goeden o fewn y safle cwympo coed
    - mân newidiadau i'r ardal cwympo coed e.e. i gynnwys nifer fach o goed wedi'u chwythu drosodd gan y gwynt am resymau iechyd a diogelwch neu reoli difrod tân neu gwympo ardal ychwanegol i hwyluso llwybr mynediad gwell i'r cnwd, neu er mwyn cael mwy o docion i hwyluso gwell rheolaeth amgylcheddol o'r safle.
    - mân newidiadau i nifer / cyfaint y coed e.e. iechyd coed. Mewn rhai achosion, gall sensitifrwydd newydd olygu bod angen cadw cynefin neu lain clustogi, gan olygu bod angen newidiadau i'r drwydded cwympo.
    - newidiadau mewn amcanion sy'n lliniaru heriau o'r argyfyngau hinsawdd a natur e.e. newid mewn rhywogaethau coed i'w hailstocio oherwydd plâu/clefydau, newidiadau mewn addasrwydd safle, hyrwyddo creu cynefinoedd neu gadw neu hwyluso adfywio naturiol coed llydanddail brodorol na ragwelwyd o'r blaen.
    - ymestyn hyd y cyfnod cwympo coed a gymeradwywyd i uchafswm o ddau dymor cwympo coed
    - ymestyn dyddiad cau ailstocio e.e. lle mae heriau annisgwyl wedi codi, megis cyfraddau marwolaeth helaeth mewn cnwd neu lefelau anarferol o uchel o ddifrod plâu / difrod rhew/sychder.
    - diwygiadau i amodau er budd neu i wella rhywogaethau a chynefinoedd e.e. hwyluso adfywio naturiol coed llydanddail brodorol na ragwelwyd o'r blaen, clustogi ardaloedd torlannol neu nodweddion amgylchedd hanesyddol yn ehangach.

Ni fyddwn yn caniatáu:

- dileu amodau lle nad yw sefyllfa'r safle wedi newid ers i'r cais gael ei gymeradwyo
- cynnwys ardal na fyddai wedi'i chymeradwyo fel rhan o'r cais cychwynnol am drwydded
- i'ch atgoffa, ni chaniateir cwympo coed nad ydynt wedi'u cynnwys yn y tabl cwympo coed ar eich trwydded, oni bai bod esemptiad yn berthnasol i'r coed penodol hynny o dan Adran 9 o'r Ddeddf Coedwigaeth.

Pan mae diwygiad arfaethedig drwy gytundeb yn effeithio ar goed sy'n destun Gorchymyn Diogelu Coed, efallai y bydd angen i CNC hysbysu'r awdurdod lleol a wnaeth y Gorchymyn hwnnw, yn dibynnu ar yr amgylchiadau. Os felly, byddwn yn trafod hyn gyda chi.

Efallai y bydd angen i chi ddarparu'r dogfennau canlynol:

- Mapiau cwympo coed neu ailstocio newydd, fel y bo'n briodol
- Unrhyw arolygon ecolegol neu safle a gynhyrchir gan weithiwr proffesiynol priodol i gefnogi'r gwelliant, fel y bo'n briodol

Bydd angen i chi lenwi ffurflen diwygio. Byddwn yn ceisio cydnabod derbyn eich ffurflen o fewn 3 diwrnod.

Ein nod yw ystyried eich cais cyn gynted â phosibl a chyhoeddi'r diwygiad o fewn 60 diwrnod i'w dderbyn, ond mae hyn yn dibynnu ar gymhlethdod y cais. Lle bo'n bosibl, ein nod yw penderfynu ar y cais am welliant o fewn 60 diwrnod i'w dderbyn. Os bydd angen, byddwn yn trafod y diwygiad gyda chi, a allai fod angen ymweliad safle. Pan fydd trwydded cwympo coed wedi'i diwygio, byddwn yn cyhoeddi hysbysiad diwygio.

Os na allwn gytuno ar ddiwygiad, efallai y bydd angen i chi geisio trwydded ychwanegol ar gyfer yr elfennau ychwanegol yr ydych am eu cwympo.

## 3.2 Diwygio heb gytundeb

Mewn amgylchiadau eithriadol, efallai y bydd angen i CNC ddiwygio neu amrywio'r amodau ar y drwydded cwympo coed os:

- torrwyd amod yn y drwydded sy'n achosi neu sy'n debygol o achosi niwed arwyddocaol i'r amgylchedd
- ni thorrwyd amodau'r drwydded, ond mae CNC o'r farn bod cwympo coed yn unol â'r drwydded yn achosi neu'n debygol o achosi niwed arwyddocaol i'r amgylchedd

Byddwn yn cymryd camau i ddiwygio'r drwydded mewn cytundeb â deiliad y drwydded. Lle nad yw hyn yn bosibl, byddwn yn rhoi naill ai hysbysiad diwygio neu amrywio i ddeiliad y drwydded gwympo. Bydd yr hysbysiad yn:

- Amlinellu'r rhesymau dros roi hysbysiad

- Nodi’r amod lle mae diffyg cydymffurfio, neu nodi'r niwed y mae’r gwaith cwympo yn unol â'r drwydded yn ei achosi neu'n debygol o'i achosi
- Lle mae’r hysbysiad yn amrywio amodau neu'n diwygio trwydded cwympo, y dyddiad y mae amrywiad neu ddiwygiad yn dod i rym
- Lle bo angen, nodi'r camau sydd angen eu cymryd i fynd i'r afael â thorri amodau, a'r cyfnod y mae'n rhaid eu cymryd ynddo. Bydd y rhain yn rhesymol ac yn gymesur, gyda chysylltiad clir â’r achos o dorri amodau.
- Darparu manylion am sut i apelio

Bydd rhywun sy’n methu â chymryd unrhyw gamau sy'n ofynnol gan hysbysiad, heb esgus rhesymol, yn wynebu dirwy wrth gael euogfarn ddiannod. Dan amgylchiadau eithriadol lle nad yw deiliad y drwydded yn cymryd camau i unioni achosion o dorri amodau amgylcheddol, gall CNC geisio cael mynediad ar y tir i unioni'r achos o dorri amod ac adennill costau wedi hynny.

Pan mae hysbysiad yn ymwneud â Gorchymyn Diogelu Coed, efallai y bydd angen i CNC hysbysu'r awdurdod lleol a wnaeth y Gorchymyn, yn dibynnu ar yr amgylchiadau. Os felly, byddwn yn trafod hyn gyda chi.

Os yw’r perchennog neu'r person cyfrifol am y drwydded cwympo coed wedi newid, ac mae angen cymryd camau i fynd i'r afael â thorri amodau, byddwn yn ceisio cyflwyno'r hysbysiad diwygio neu amrywio i'r perchennog newydd. Mae rhagor o wybodaeth am pryd mae angen i chi roi gwybod i ni am newidiadau mewn perchnogaeth tir yn Adran 3.1.1. Diwygiad gweinyddol i'r canllawiau hyn.

Pan fydd trwydded cwympo coed wedi'i diwygio, byddwn yn cyhoeddi hysbysiad diwygio. Mae gennych dri mis i apelio yn erbyn hysbysiad diwygio. Ni fydd yr hysbysiad diwygio’n weithredol nes bydd y cyfnod hwn wedi dod i ben oni bai ein bod yn ystyried bod meini prawf brys* yn berthnasol.

*Efallai y byddwn o'r farn bod "meini prawf brys" yn berthnasol h.y. bod angen yr hysbysiad i ymateb i risg sylweddol sydd ar fin digwydd o niwed i harddwch naturiol, neu fflora, ffawna, nodweddion daearegol neu ffisiograffigol neu gynefinoedd naturiol. O dan yr amgylchiadau hyn, byddai’r hysbysiad yn berthnasol o ddyddiad yr hysbysiad. Er y byddai angen i chi gydymffurfio â'r hysbysiad o'r dyddiad y daw i rym, byddai gennych hawl i apelio yn erbyn yr hysbysiad o hyd.

# 4 Atal trwydded cwympo coed

Mae Deddf Coedwigaeth 1967 wedi'i diwygio i ganiatáu ar gyfer

- ychwanegu amodau amgylcheddol i drwyddedau cwympo coed er mwyn sicrhau cyfanrwydd safleoedd gwarchodedig, rhywogaethau gwarchodedig neu elfennau sensitif eraill.

- y gallu i ddiwygio, atal neu ddiddymu trwydded cwympo coed os bydd rhywbeth am y gweithgaredd trwyddedig hwnnw yn annerbyniol i CNC

Dim ond i geisiadau am drwydded cwympo coed a dderbyniwyd ar 1 Ebrill 2024 ymlaen y mae hyn yn berthnasol.

Efallai y byddwn yn dewis atal trwydded cwympo coed lle credwn nad yw rhywun yn cydymffurfio â thrwydded cwympo coed a/neu bod y gwaith cwympo coed naill ai wedi neu'n debygol o arwain at niwed sylweddol i:

(a) Harddwch naturiol, neu
(b) Fflora, ffawna, nodweddion daearegol neu ffisiolegol, neu gynefinoedd naturiol

Cyn i ni ystyried atal eich trwydded cwympo coed byddwn yn ceisio:

- gwneud pob ymdrech i gyfarfod a chynnal trafodaethau â chi i fynd i'r afael â'r mater
- rhoi gwybod i chi am eich methiant i gydymffurfio ag amodau amgylcheddol eich trwydded cwympo coed a thynnu sylw at y niwed gwirioneddol neu risg o niwed sylweddol i fywyd gwyllt neu'r amgylchedd a welwyd
- rhoi cyngor ac arweiniad i'ch helpu i sicrhau bod eich safle yn cydymffurfio â'ch trwydded neu reoli'r niwed arwyddocaol (neu'r risg ohono) a nodwyd, a chaniatáu amser rhesymol i chi, lle bo'n briodol, gymryd camau i ddilyn y cyngor a'r arweiniad hwn
- rhoi ystyriaeth i ddiwygio neu amrywio'r amodau amgylcheddol ar eich trwydded lle mae'n briodol gwneud hynny, naill ai drwy gytundeb neu drwy gyflwyno hysbysiad.

Mae atal trwydded yn cael ei ystyried yn ganlyniad eithafol, a dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y byddai'n cael ei ddefnyddio pan na fyddai newid yr amodau neu'r drwydded gwympo yn mynd i'r afael â'r broblem – lle nad oes modd cytuno ar y mater neu os nad oes opsiynau eraill ar gael.

## 4.1 Atal eich trwydded

Efallai y byddwn yn ystyried atal eich trwydded yn yr amgylchiadau canlynol, er y byddwn yn asesu pob safle yn unigol yn dibynnu ar i ba raddau mae'r niwed amgylcheddol yn digwydd, neu y gallai ddigwydd:

- os oes damwain neu ddigwyddiad o ganlyniad i'ch gwaith cwympo coed sy'n achosi niwed i'r amgylchedd a dim ond trwy atal y gwaith cwympo coed y gellir mynd i'r afael â'r mater
- rydych wedi methu â chydymffurfio ag amodau amgylcheddol eich trwydded cwympo coed a/neu wedi methu â chydymffurfio â hysbysiad diwygio

- os penderfynwn eich bod wedi methu â gweithredu ar y cyngor a'r arweiniad a roddwyd gennym i gydymffurfio ag amodau'r drwydded, neu i liniaru yn erbyn y niwed arwyddocaol (neu'r risg ohono) a nodwyd
- os nodir sensitifrwydd newydd ar y safle a allai ei gwneud yn ofynnol i ni adolygu amodau'r drwydded i'ch helpu i reoli eich gweithrediadau o fewn deddfwriaeth amgylcheddol ac nad yw'n bosibl mynd i'r afael â hyn drwy ddiwygio amodau amgylcheddol neu eich trwydded gwympo.

## 4.2 Cyflwyno hysbysiad atal dros dro

Pan fyddwn yn cyflwyno hysbysiad, byddwn yn:

- nodi'r rheswm am gyflwyno'r hysbysiad
- pennu dyddiad dod i rym yr hysbysiad
- nodi'r amod na chydymffurfiwyd ag ef neu na chydymffurfir ag ef
- nodi a yw'r drwydded cwympo coed yn cael ei hatal yn llawn neu'n rhannol
- datgan os ydym wedi amrywio, symud neu ychwanegu amod newydd ar y drwydded cwympo coed yn dibynnu ar yr amgylchiadau
- nodi camau sy'n rhesymol ac yn gymesur i unioni'r methiant i gydymffurfio â'r amod, neu ddiwygio'r drwydded cwympo coed i fynd i'r afael â'r niwed amgylcheddol arwyddocaol annisgwyl neu risg ohono, lle bo hynny'n berthnasol
- nodi'r cyfnod o amser y mae atal y drwydded yn ymwneud ag ef, neu hyd nes y bydd unrhyw gamau wedi'u cymryd i unioni'r methiant i gydymffurfio â'r amod. Bydd y rhain yn gymesur â'r rheswm dros atal.
- nodi'r dyddiad y daw'r hysbysiad atal i rym
- nodi pa elfennau o'r gwaith cwympo coed dan drwydded all barhau, lle mae'r drwydded wedi'i hatal yn rhannol
- cadarnhau pa weithgareddau y gallwch eu cyflawni ar y safle er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion iechyd a diogelwch y safle
- darparu manylion am sut i apelio

Yn dibynnu ar frys y sefyllfa, byddwn yn ymgynghori â'n tîm cyfreithiol cyn cyflwyno'r hysbysiad.

Lle mae torri amodau wedi arwain at niwed amgylcheddol, gallwn gynnwys camau i fynd i'r afael â'r toriad. Gall peidio â chydymffurfio â'r camau hyn fod yn drosedd.

Tra bod gwaharddiad yn ei le, rhaid i bob gwaith cwympo coed (wedi'i atal) stopio yn yr ardal a nodwyd. Os bydd gwaith cwympo'n parhau yn ystod y cyfnod atal, bydd yn drosedd.

Dim ond fel yr ateb olaf un y byddwn yn atal eich trwydded. Mae ein polisi gorfodi a sancsiynau yn amlinellu ein dull gweithredu. Os byddwn yn atal eich trwydded, byddwn ni'n cyflwyno hysbysiad atal – a hynny ar ymgeisydd y drwydded ar yr amod bod gan yr ymgeisydd fuddiant o hyd yn y tir sy'n rhan o'r drwydded cwympo. Pan fydd y buddiant yn

y tir wedi newid, bydd yr hysbysiad yn cael ei gyflwyno i'r person sydd ag ystad neu fuddiant yn y tir ar ddyddiad cyflwyno’r hysbysiad.

Efallai y byddwn yn cynnal ymchwiliadau pellach yn ystod y cyfnod atal. Byddai atal gweithrediadau yn caniatáu ymchwilio i'r achos posibl o dorri'r rheolau a chytuno a gweithredu camau unioni os oes angen.

Mewn amgylchiadau prin iawn, ac ar ôl cyflwyno’ch trwydded, efallai y daw i’r amlwg bod y gwaith arfaethedig yn achosi neu y gallai achosi niwed arwyddocaol i harddwch naturiol, fflora, ffawna, nodweddion daearegol neu ffisiolegol neu gynefinoedd naturiol y safle dan sylw. Dan yr amgylchiadau hynny, byddwn yn ystyried opsiynau i fynd i'r afael â'r mater gyda chi. Ond os nad oes opsiynau eraill ar gael, efallai y bydd yn rhaid i ni atal eich trwydded. Os felly, byddwn yn nodi'r rhesymau gan gynnwys esboniad o'r niwed a ragwelir. Byddem yn ceisio gweithio gyda chi yn ystod y cyfnod atal i weld a allai gweithrediadau ailddechrau ac yn dibynnu ar ba amodau.

Efallai y byddwn yn codi'r gwaharddiad cyn yr amserlen y cytunwyd arni os ydych wedi llwyddo i ddychwelyd y safle i statws cydymffurfio yn gynt na’r hyn y cytunwyd arno, neu os yw’r risg arwyddocaol o niwed wedi diflannu.

Oherwydd yr angen i atal trwydded cwympo ar frys, bydd yr hysbysiad atal dros dro yn dod i rym ar unwaith. Rhaid i chi gydymffurfio â'r hysbysiad ond mae gennych hawl i apelio yn erbyn yr hysbysiad o hyd. Mae gennych dri mis i wneud hynny o ddyddiad yr hysbysiad.

Gallwch apelio yn erbyn eich ataliad ac os bydd eich apêl yn llwyddiannus, efallai y bydd gennych hawl i gael iawndal am atal y drwydded.

Pan mae hysbysiad yn ymwneud â Gorchymyn Diogelu Coed, efallai y bydd angen i CNC hysbysu'r awdurdod lleol a wnaeth y Gorchymyn, yn dibynnu ar yr amgylchiadau. Os felly, byddwn yn trafod hyn gyda chi.

# 5 Dirymu trwydded cwympo coed

Mae Deddf Coedwigaeth 1967 wedi'i diwygio er mwyn caniatáu ar gyfer

- ychwanegu amodau amgylcheddol i drwyddedau cwympo coed er mwyn sicrhau cyfanrwydd safleoedd gwarchodedig neu elfennau sensitif eraill
- y gallu i ddiwygio, atal neu ddiddymu trwydded cwympo coed os bydd rhywbeth am y gweithgaredd trwyddedig hwnnw yn annerbyniol

Dim ond i geisiadau am drwydded cwympo coed a dderbyniwyd ar neu ar ôl 1 Ebrill 2024 y mae hyn yn berthnasol.

Efallai y byddwn yn dewis dirymu trwydded cwympo coed lle’r ydym yn credu nad yw rhywun yn cydymffurfio â thrwydded cwympo coed a/neu bod gwaith cwympo coed naill ai wedi neu’n debygol o achosi niwed sylweddol i:

(a) Harddwch naturiol, neu
(b) Fflora, ffawna, nodweddion daearegol neu ffisiolegol, neu gynefinoedd naturiol

Cyn ystyried dirymu eich trwydded, byddwn yn ceisio:

- gwneud pob ymdrech i gyfarfod a chynnal trafodaethau â chi i fynd i'r afael â'r mater
- rhoi gwybod i chi am eich methiant i gydymffurfio ag amodau amgylcheddol eich trwydded cwympo coed a thynnu sylw at y niwed gwirioneddol neu risg o niwed arwyddocaol i fywyd gwyllt neu'r amgylchedd a welwyd
- rhoi cyngor ac arweiniad i chi i'ch helpu i sicrhau bod eich safle'n cydymffurfio â'ch trwydded neu reoli'r niwed arwyddocaol (neu'r risg ohono) a nodwyd, a chaniatáu amser rhesymol i chi, lle bo'n briodol, gymryd camau i ddilyn y cyngor a'r arweiniad hwn
- rhoi ystyriaeth i ddiwygio neu amrywio'r amodau amgylcheddol ar eich trwydded lle mae'n briodol gwneud hynny, naill ai drwy gytundeb neu drwy gyflwyno hysbysiad
- rhoi ystyriaeth i atal eich trwydded i ganiatáu amser i chi gydymffurfio â'r cyngor a'r arweiniad a ddarparwyd gennym

Mae atal neu ddirymu trwydded yn cael eu hystyried yn ganlyniadau eithafol ac ni wneir hynny ond mewn amgylchiadau eithriadol pan na fyddai newid yr amodau neu'r drwydded gwympo yn mynd i'r afael â'r mater neu os na ellir cytuno ar y newid hwnnw neu nid oes unrhyw opsiynau eraill ar gael.

## 5.1 Dirymu eich trwydded

Efallai y byddwn yn ystyried dirymu eich trwydded cwympo coed os:

- na allwch ddarparu cynllun clir ar gyfer mynd i'r afael â gofynion yr hysbysiad diwygio/amrywio neu hysbysiad atal a/neu
- nad ydych wedi cymryd camau digonol neu briodol i ddatrys materion a nodwyd gan CNC, neu heb gydymffurfio â'r camau a nodwyd mewn hysbysiad blaenorol a gyflwynwyd i chi
- os oes risg barhaus o niwed arwyddocaol i'r amgylchedd, er enghraifft llygredd
- os oes achosion parhaus o dorri amodau amgylcheddol y drwydded
- lle nad yw'r gallu i ddiwygio neu atal trwydded cwympo coed yn ddigonol i liniaru'r niwed amgylcheddol sy'n cael ei achosi neu'n debygol o gael ei achosi gan y gweithgaredd

## 5.2 Cyflwyno hysbysiad i ddirymu eich trwydded cwympo coed

Wrth gyflwyno hysbysiad dirymu i ddeiliad y drwydded neu berson cyfrifol, yn dibynnu ar yr hysbysiad penodol ac yn unol â'r gofynion deddfwriaethol, byddwn yn:

- nodi’r rheswm am gyflwyno hysbysiad
- nodi'r amod na chydymffurfir ag ef neu nodi'r niwed y mae’r gwaith cwympo coed yn unol â'r drwydded yn ei achosi neu'n debygol o'i achosi
- nodi dyddiad dod i rym y dirymiad
- cyflwyno’r camau sydd angen eu cymryd i gywiro achos o dorri amodau
- pennu'r cyfnod (ar ôl i'r hysbysiad ddod i rym) y mae'n rhaid cymryd y camau hynny ynddo
- unrhyw weithgareddau y gall deiliad y drwydded eu cynnal ar y safle i sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion Iechyd a Diogelwch y safle
- darparu manylion am sut i apelio

Lle mae achos o dorri amodau wedi arwain at niwed amgylcheddol, gallwn gynnwys camau i'w cymryd i fynd i'r afael â'r toriad. Gall peidio â chydymffurfio â'r camau hyn fod yn drosedd.

Pan fyddwn yn dirymu trwydded, bydd dileu breintiau cwympo, amodau sy'n ymwneud â gwaith cwympo coed sydd eisoes wedi'i wneud yn parhau yn eu lle, er enghraifft y rhwymedigaeth i ailstocio unrhyw ardaloedd a gwympwyd.

Gan fod yr hysbysiad hwn yn dirymu eich caniatâd i gwympo coed, bydd unrhyw waith cwympo a wneir ar ôl dyddiad cyhoeddi'r hysbysiad yn cael ei drin fel trosedd.

Gallwch apelio yn erbyn eich dirymiad ac os bydd eich apêl yn llwyddiannus, efallai y bydd gennych hawl i ofyn am iawndal.

Mae gennych dri mis i apelio yn erbyn yr hysbysiad diddymu. Ni fydd yr hysbysiad dirymu’n weithredol nes bod y cyfnod hwn wedi dod i ben oni bai ein bod yn ystyried bod meini prawf brys* yn berthnasol.

*Efallai y byddwn o'r farn bod "meini prawf brys" yn berthnasol h.y. bod angen yr hysbysiad i ymateb i risg uniongyrchol a difrifol o niwed i harddwch naturiol, neu fflora, ffawna, nodweddion daearegol neu ffisiograffigol neu gynefinoedd naturiol. Dan yr amgylchiadau hyn, byddai’r hysbysiad yn berthnasol o ddyddiad yr hysbysiad. Tra bod angen i chi gydymffurfio â’r hysbysiad o’r dyddiad y daw i rym, byddai gennych hawl i apelio yn erbyn yr hysbysiad o hyd.

Pan fo hysbysiad yn ymwneud â Gorchymyn Diogelu Coed, efallai y bydd angen i CNC hysbysu'r awdurdod lleol a wnaeth y Gorchymyn, yn dibynnu ar yr amgylchiadau. Os felly, byddwn yn trafod hyn gyda chi.

# 6 Apeliadau ac Iawndal

6.1 Apeliadau

Mae nifer o amgylchiadau lle gallech fod â hawl i apelio yn erbyn hysbysiad i amrywio, atal neu ddirymu trwydded cwympo. Llywodraeth Cymru sy'n ymdrin ag apeliadau. Mae rhagor o wybodaeth am apelio yn erbyn eich hysbysiad ar gael yma.

## 6.2 – Iawndal

Efallai y bydd gennych hawl i ofyn am iawndal gan Cyfoeth Naturiol Cymru

- os yw eich apêl yn erbyn hysbysiad a roddwyd i chi yn llwyddiannus neu
- os gwnaethom gyflwyno hysbysiad lle na fu unrhyw achos o dorri amodau amgylcheddol ond lle rydym o'r farn bod cwympo coed yn unol â'r drwydded yn achosi neu'n debygol o achosi niwed sylweddol i harddwch naturiol, neu fflora, ffawna, nodweddion daearegol neu ffisiolegol neu gynefinoedd naturiol.

Gallwch hawlio iawndal os;

- mai chi yw'r unigolyn a gafodd yr hysbysiad
- perchennog y coed

Dylech gael cyngor arbenigol wrth hawlio iawndal. Mae'r manylion llawn am hawlio iawndal ar gael dan adran 41 o Ddeddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023.

Dim ond am y cyfnod sydd wedi'i effeithio gan ein hysbysiad y byddwn yn talu.

Efallai y bydd gennych hawl i iawndal am y dibrisiant yng ngwerth y coed. Dim ond am y dibrisiant yng ngwerth coed y gellir ei briodoli i'r dirywiad mewn ansawdd pren sy'n ganlyniad uniongyrchol i'n penderfyniad y byddwn yn talu iawndal.

Efallai y bydd gennych hawl i gael iawndal am dreuliau a ysgwyddwyd yn rhesymol. Dim ond pan fydd treuliau'n codi o ganlyniad uniongyrchol i'n penderfyniad i gyhoeddi'r hysbysiad y byddwn yn talu.

Nid oes modd gwneud hawliad am ddibrisiant mewn gwerth pren ar ôl blwyddyn ers cwympo, lle mae'r coed wedi'u cwympo.

Ni ellir gwneud hawliad am ddirywiad fwy na deng mlynedd ar ôl i'r hysbysiad gael ei roi.

Ni ddylid ystyried dirywiad yn ansawdd y pren oherwydd esgeuluso'r coed.

### 6.2.1 Gwneud cais am iawndal

Os ydych chi'n ceisio iawndal, rhaid i chi wneud cais o fewn 18 mis i'r diwrnod ar ôl y diwrnod yr anfonodd Llywodraeth Cymru hysbysiad o ganlyniad apêl lwyddiannus a chanslo'r hysbysiad. Mae'r union fanylion ar gael yn Rheoliadau Coedwigaeth (Cwympo Coed) (Diwygio) (Cymru) 2023 (dolen).

Wrth geisio iawndal mae'n rhaid i chi sicrhau eich bod yn nodi'r manylion am sut wnaethoch chi gyfrifo'r golled, y dull a ddefnyddiwyd, yn ogystal â'r cyfnod o amser y cyflawnwyd hyn ynddo. Dylid canfod gwerth coed gan ddefnyddio prisiau ar ddyddiad yr hawliad. Rhaid cynnwys neu atodi'r holl wybodaeth hon ar eich ffurflen hawlio.

Rhaid i'r dogfennau ategol ddarparu tystiolaeth o'ch colled a dangos cysylltiad uniongyrchol rhwng ein penderfyniad a'r golled.

Wrth asesu cais am iawndal byddwn yn adolygu'r wybodaeth a ddarparwyd yn ofalus a gallwn ofyn am gyngor gan arbenigwyr perthnasol lle bo angen, er mwyn helpu i wirio cywirdeb y wybodaeth.

Rydym yn ymdrechu i dalu iawndal o fewn 30 diwrnod. Os yw'r hawliad yn gymhleth, byddwn yn talu iawndal o fewn chwe mis i hawliad dilys.

Os ydych yn dymuno gwneud cais am iawndal, e-bostiwch fellinglicenceonline@forestrycommission.gov.uk a gofyn am ffurflen gais am iawndal.

# Atodiad 1 – Amodau Sylfaenol

## Gweithrediadau Safle:

**Olew a Thanwydd -** Rhaid i ddeiliad y drwydded sicrhau bod yr holl olew a thanwydd yn cael eu storio a'u defnyddio mewn ffordd sy'n atal peryglon gollwng a llygru.

**Safle** - Rhaid i Ddeiliad y Drwydded sicrhau bod pob gwaith coedwig yn cael ei gynllunio ymlaen llaw a'i reoli'n barhaus er mwyn:

- lleihau difrod i strwythur y pridd a swyddogaeth y pridd
- osgoi dŵr ffo i gyrsiau dŵr
- gwarchod fflora, ffawna, nodweddion daearegol neu ffisiograffigol a chynefinoedd naturiol y safle

**Cemegion** (sy'n cynnwys plaladdwyr, chwynladdwyr a gwrtaith) - Rhaid i'r rhain gael eu defnyddio gan berson cymwys sydd wedi'i hyfforddi i'r safon ofynnol, neu rhaid i'w gwaith gael ei oruchwylio gan berson ardystiedig a rhaid eu defnyddio yn unol â chanllawiau defnyddwyr ac osgoi niwed i'r amgylchedd neu lygredd dŵr.

## Cynlluniau Gweithredu ac Wrth Gefn:

Rhaid i gynlluniau gweithredol ac wrth gefn fod ar waith cyn i weithgareddau mawr fel cynaeafu, a gwaith peirianyddol ddigwydd. Dylai cynlluniau gynnwys risgiau gwirioneddol a phosibl i'r goedwig, bywyd gwyllt, cyrff dŵr a bioddiogelwch (plâu, clefydau a rhywogaethau estron goresgynnol). Wrth gyflawni'r gwaith hwn, dylid cymryd gofal i warchod neu wella harddwch naturiol y safle.

## Gwastraff a weithgynhyrchwyd:

Sicrhau bod yr holl wastraff a weithgynhyrchir fel cetris saim, bagiau plannu ac ati yn cael ei storio'n briodol yn ystod y gwaith a'i waredu'n briodol.

## Cofnodi digwyddiadau:

Os bydd y gwaith dan sylw yn arwain at ddigwyddiad neu ddamwain sy'n effeithio'n arwyddocaol ar yr amgylchedd neu a allai effeithio'n arwyddocaol arno, rhaid i ddeiliad y drwydded:

(i) hysbysu Cyfoeth Naturiol Cymru trwy ffonio'r llinell gymorth 0300 065 3000
(ii) cymryd y camau angenrheidiol i gyfyngu ar ganlyniadau amgylcheddol digwyddiad neu ddamwain o'r fath, a
(iii) cymryd y camau angenrheidiol i atal digwyddiadau neu ddamweiniau.

## Nodweddion a rhywogaethau'r safle:

### Nodweddion Hanesyddol:

Ni ddylai deiliad y drwydded ddifrodi nodweddion hanesyddol y safle. Os dewch chi ar draws unrhyw wrthrych sy’n rhan o gwmpas y gyfraith ar gyfer darganfyddiadau archeolegol, rhaid dweud wrth yr awdurdod perthnasol, Heneb: Ymddiriedolaeth Archaeoleg Cymru.

### Coed Hynafol:

Rhaid i ddeiliad y drwydded nodi, cadw, rheoli ac osgoi difrod i goed hynafol presennol.

**Coeden hynafol (Diffiniad) a gymerwyd o UKFS:** Coeden o oedran sylweddol sydd o ddiddordeb biolegol, diwylliannol neu esthetig oherwydd ei hoedran, maint neu gyflwr, gan gynnwys presenoldeb micro-gynefinoedd coed marw.

### Coed Marw:

Rhaid i ddeiliaid trwydded gadw cyfran o'r pren marw sy’n dal i sefyll ac wedi cwympo yn y coetir gyda'r bwriad o gadw o leiaf 20 metr ciwbig fesul hectar ar gyfartaledd, lle bo hynny'n berthnasol.

### Cyflwr Sylfaenol ar gyfer Rhywogaethau Gwarchodedig:

Cyn i'r gwaith ddechrau, rhaid i berson cymwys gynnal arolwg o'r safle ar droed. Rhaid i'r arolwg chwilio am dystiolaeth sy'n dangos presenoldeb unrhyw anifeiliaid a warchodir gan Ewrop neu'r DU (gan gynnwys moch daear), adar neu blanhigion.

*Hysbysiad am Rywogaethau Gwarchodedig:*

*Rydych chi'n gyfrifol am sicrhau nad ydych chi'n cyflawni trosedd bywyd gwyllt wrth weithredu eich caniatâd cwympo coed, hyd yn oed os nad yw rhywogaeth wedi'i nodi a'i chynnwys fel amod fel rhan o'ch trwydded cwympo coed. Rhaid i chi hefyd fod yn barod i newid eich cynlluniau os canfyddir tystiolaeth o rywogaethau gwarchodedig ychwanegol yn ystod y gwaith. Mae CNC wedi cyhoeddi Canllawiau Arfer Da ar gyfer rhai rhywogaethau a geir yn gyffredin mewn coetir. Os ydych chi'n ansicr pa gamau sydd angen i chi eu cymryd, eich cyfrifoldeb chi yw ceisio a dilyn cyngor gan berson cymwys. Dylech gadw cofnodion o'ch arolwg cerdded ac o unrhyw fesurau a gymerwch i osgoi niweidio rhywogaethau gwarchodedig.*

*Hysbysiad am Adar Atodlen 1:*

*Mae cofnodion yn awgrymu y gallai [enw'r aderyn] fod yn bresennol yn eich coetir. Mae'r aderyn hwn wedi'i restru ar Atodlen 1 o Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981. Mae pob aderyn gwyllt a'u hwyau a'u nythod wedi'u gwarchod gan y gyfraith, ond rhoddir gwarchodaeth ychwanegol i adar Atodlen 1. Rhaid i chi edrych am bresenoldeb yr aderyn hwn, neu ei nythod, sicrhau eich bod yn deall y gyfraith, a chymryd pob cam rhesymol i*

*osgoi achosi niwed. Eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau nad ydych chi'n cyflawni trosedd wrth gyflawni eich gwaith.*

**Moch Daear:**

Cyn i'r gwaith ddechrau, dylid gwirio'r ardal am bresenoldeb moch daear. Os gwelir unrhyw dystiolaeth o foch daear a/neu eu mannau bridio/gorffwys, dylid ymgynghori â chanllawiau moch daear, a gweithredu'n unol â hynny. Cysylltwch ag unigolyn cymwys a phrofiadol, yn ddelfrydol ecolegydd os oes angen.

## Hysbysiadau gofynnol:

Rhaid rhoi gwybod i Cyfoeth Naturiol Cymru o fewn 14 diwrnod ar gyfer safleoedd gweithredol a 28 diwrnod cyn i'r gwaith ddechrau ar safleoedd anweithredol ar gyfer y canlynol:

a) Os mai cwmni cofrestredig yw deiliad y drwydded:

- Unrhyw newid yn enw masnachu deiliaid y drwydded, enw cofrestredig neu gyfeiriad swyddfa gofrestredig: a
- Unrhyw gamau a gymerwyd gan ddeiliaid y drwydded gyda'r nod o fynd i ddwylo'r gweinyddwyr, ymrwymo i drefniant gwirfoddol cwmni neu gael ei ddirwyn i ben

b) Os mai corff corfforaethol ac eithrio cwmni cofrestredig yw deiliad y drwydded:

- unrhyw newid yn enw neu gyfeiriad deiliad y drwydded: a

- unrhyw gamau a gymerwyd gyda'r bwriad o ddiddymu deiliaid y drwydded.

c) Mewn unrhyw achos arall:

- marwolaeth unrhyw un o ddeiliaid y drwydded a enwir (lle mae deiliaid y drwydded yn cynnwys mwy nag un unigolyn a enwir);

- unrhyw newid yn enw(au) neu gyfeiriad(au) deiliaid y drwydded; ac

- unrhyw gamau a gymerwyd er mwyn i ddeiliaid y drwydded, neu unrhyw un ohonynt, fynd yn fethdalwr, ymrwymo i gyfansoddiad neu drefniant gyda chredydwyr, neu os ydynt mewn partneriaeth, diddymu'r bartneriaeth.

# Atodiad 2 – Amodau Amgylcheddol Haen Dau

**Amodau Haen 2 ar gyfer Rhywogaethau Gwarchodedig a gwmpesir gan Ganllawiau Arfer Da GN72**

**Rhywogaeth a Warchodir gan Ewrop - Ystlumod**

Rydym wedi nodi cofnodion sy'n dangos bod ystlumod yn debygol o fod yn bresennol o fewn yr ardal waith. Rhaid i chi ddilyn gofynion Canllaw Arfer Da GN72 'Protecting Bats during woodland management and forestry operations'. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i chi naill ai:

a) Ddilyn y dull safonol yn yr adran "Preventive Measures to protect Bats"

neu

b) Allu dangos bod ecolegydd cymwys naill ai wedi arolygu'r safle a chadarnhau nad yw'n debygol fod ystlumod yn bresennol, neu wedi eich cefnogi i ddatblygu a dilyn datganiad dull penodol i'r safle sy'n eich galluogi i weithredu heb gyflawni trosedd.

neu, fel dewis olaf,

c) Sicrhau trwydded rhywogaeth briodol i ganiatáu i'r gwaith ddigwydd yn gyfreithlon

**Rhywogaeth a Warchodir gan Ewrop – Pathewod**

Rydym wedi nodi cofnodion sy'n dangos bod Pathewod yn debygol o fod yn bresennol o fewn yr ardal waith. Rhaid i chi ddilyn gofynion Canllaw Arfer Da GN72 "Protecting Hazel Dormouse during woodland management and forestry operations". Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i chi

naill ai:

a) Ddilyn y dull safonol yn yr adran "Preventive measures to protect Hazel Dormice"

neu

b) Allu dangos bod ecolegydd cymwys naill ai wedi arolygu'r safle a chadarnhau nad yw'n debygol fod pathewod yn bresennol, neu wedi eich cefnogi i ddatblygu a dilyn datganiad dull penodol i'r safle sy'n eich galluogi i weithredu heb gyflawni trosedd.

neu, fel dewis olaf,

c) Sicrhau trwydded rhywogaeth briodol i ganiatáu i'r gwaith ddigwydd yn gyfreithlon

**Rhywogaeth a Warchodir gan Ewrop – Madfall Ddŵr Gribog**

Rydym wedi nodi cofnodion neu dystiolaeth arall sy'n dangos bod Madfallod Dŵr Cribog yn debygol o fod yn bresennol o fewn yr ardal waith. Rhaid i chi ddilyn gofynion Canllaw Arfer Da GN72 “Protecting Great Crested Newts during woodland management and forestry operations”. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i chi naill ai:

a) Ddilyn y dull safonol yn yr adran “Preventive measures to protect Great Crested Newts”

neu

b) Allu dangos bod ecolegydd cymwys naill ai wedi arolygu'r safle ac wedi cadarnhau nad yw'n debygol fod Madfallod Dŵr Cribog yn bresennol, neu wedi eich cefnogi i ddatblygu a dilyn datganiad dull penodol i'r safle sy'n eich galluogi i weithredu heb gyflawni trosedd neu, fel dewis olaf, c) Sicrhau trwydded rhywogaeth briodol i ganiatáu i'r gwaith ddigwydd yn gyfreithlon

**Rhywogaeth a Warchodir gan Ewrop – Dyfrgwn**

Rydym wedi nodi cofnodion neu dystiolaeth arall sy'n dangos bod Dyfrgwn yn debygol o fod yn bresennol o fewn yr ardal waith. Rhaid i chi ddilyn gofynion Canllaw Arfer Da GN72 “Protecting Eurasian Otter during woodland management and forestry operations”. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i chi naill ai:

a) Ddilyn y dull safonol yn yr adran “Preventive measures to protect Eurasian Otter”

neu

b) Allu dangos bod ecolegydd cymwys naill ai wedi arolygu'r safle a chadarnhau nad yw'n debygol fod dyfrgwn yn bresennol, neu wedi eich cefnogi i ddatblygu a dilyn datganiad dull penodol i'r safle sy'n eich galluogi i weithredu heb gyflawni trosedd.

neu, fel dewis olaf,

c) Sicrhau trwydded rhywogaeth briodol i ganiatáu i'r gwaith ddigwydd yn gyfreithlon

**Rhywogaeth a Warchodir gan y DU – Llygod Pengrwn y Dŵr**

Rydym wedi nodi cofnodion neu dystiolaeth arall sy'n dangos bod Llygod Pengrwn y Dŵr yn debygol o fod yn bresennol o fewn yr ardal waith. Rhaid i chi ddilyn gofynion Canllaw

Arfer Da GN72 “Protecting Water Voles during woodland management and forestry operations”. Mae hyn yn golygu

bod rhaid i chi naill ai:

a) Ddilyn y dull safonol yn yr adran “Reasonable avoidance measures to protect Water Voles”

neu

b) Allu dangos bod ecolegydd cymwys naill ai wedi arolygu'r safle a chadarnhau nad yw'n debygol fod llygod pengrwn y dŵr yn bresennol, neu wedi eich cefnogi i ddatblygu a dilyn datganiad dull penodol i'r safle sy'n eich galluogi i weithredu heb gyflawni trosedd.

**Rhywogaeth a Warchodir gan y DU – Gwiwerod Coch**

Rydym wedi nodi cofnodion neu dystiolaeth arall sy'n dangos bod Gwiwerod Coch yn debygol o fod yn bresennol o fewn yr ardal waith. Rhaid i chi ddilyn gofynion Canllaw Arfer Da GN72 “Protecting Red Squirrels during woodland management and forestr operations”. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i chi naill ai:

a) Ddilyn y dull safonol yn yr adran “Reasonable avoidance measures to protect Red Squirrels”

neu

b) Allu dangos bod ecolegydd cymwys naill ai wedi arolygu'r safle a chadarnhau nad yw'n debygol fod gwiwerod coch yn bresennol, neu wedi eich cefnogi i ddatblygu a dilyn datganiad dull penodol i'r safle sy'n eich galluogi i weithredu heb gyflawni trosedd.

**Rhywogaeth a Warchodir yn y DU – Beleod y Coed**

Rydym wedi nodi cofnodion neu dystiolaeth arall sy'n dangos bod Beleod y Coed yn debygol o fod yn bresennol yn yr ardal waith. Rhaid i chi ddilyn gofynion Canllaw Arfer Da GN72 “Protecting Pine Martens during woodland management and forestry operations”. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i chi naill ai:

a) Ddilyn y dull safonol yn yr adran “Reasonable avoidance measures to protect Pine Martens”

neu

b) Allu dangos bod ecolegydd cymwys naill ai wedi arolygu'r safle a chadarnhau nad yw'n debygol fod beleod y coed yn bresennol, neu wedi eich cefnogi i ddatblygu a dilyn datganiad dull penodol i'r safle sy'n eich galluogi i weithredu heb gyflawni trosedd.

**Henebion Cofrestredig:** Rhaid i ddeiliad y drwydded:

- peidio â difrodi henebion cofrestredig ar y safle. Os byddwch chi'n darganfod unrhyw wrthrych sydd o fewn cwmpas y gyfraith ar gyfer darganfyddiadau archeolegol, rhaid rhoi gwybod i'r awdurdod perthnasol, CADW.

**Coetiroedd Hynafol**

Ar gyfer pob safle coetir hynafol sydd wedi'i gofnodi ar y Rhestr Coetiroedd Hynafol rhaid i ddeiliad y drwydded:

- peidio â defnyddio cemegau oni bai eu bod yn benodol yn chwistrellu coesynnau neu'n chwistrellu ardaloedd penodol lle mae rhywogaethau estron goresgynnol.
- peidio â llosgi ar y safle oni bai bod cais ysgrifenedig yn cael ei wneud i CNC
- nodi, amddiffyn a chynnal nodweddion sy'n parhau (Mae nodweddion sy'n parhau yn cynnwys coed hynafol / bonion coed /cloddiau gwrychoedd a fflora coetiroedd hynafol).
- cymryd pob cam a chyfle rhesymol i leihau nifer y llwybrau echdynnu / mynediad newydd i leihau difrod i'r ddaear.

Dim ond rhwng 1 Medi a 1 Mawrth y dylai deiliad y drwydded wneud gwaith cwympo coed oni bai bod Tîm Trwyddedu Coedwigaeth CNC yn cytuno bod amodau neu gyfyngiadau safle penodol yn gofyn am waith cwympo coed y tu allan i'r cyfnod hwn ac yn rhoi caniatâd ysgrifenedig i ddeiliad y drwydded wneud gwaith cwympo coed y tu allan i'r cyfnod hwnnw.